

476/67

HANES – HI6

UNED 6 (Asesiad Synoptig)

ASTUDIAETH FANWL 5

PRYDAIN, tua 1929-1939

A.M. DYDD GWENER, 23 Mehefin 2006

50 munud (o arholiad 1 awr 40 munud)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **un** cwestiwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau neu'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.

UNED 6

ASTUDIAETH FANWL 5

PRYDAIN, tua 1929-1939

Atebwch un cwestiwn.

Atgoffir ymgeiswyr y dylai eu hatebion ddangos ymdriniaeth synoptig o'r cwestiwn sy'n dwyn ynghyd, lle bo'n addas, agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol ar y testun.

1. Cymru, tua 1929-1939

Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.

Ffynhonnell A

'Mae'r ysbryd yn y cymoedd yn helpu i leddfu llawer o'r caledi a achosir gan ddiweithdra. Rwy'n falch nad oes gen i fab. Byddai ei weld ef yn dirywio oherwydd diffyg gwaith wedi torri fy nghalon. Bûm i allan o waith ers wyth mlynedd, ac am un diwrnod ar ddeg yn unig y cefais waith i lawr y pwll gydol y cyfnod hwnnw. Gwaith a fyddai'n arfer rhoi siâp ar ein bywydau, ond bellach rhaid i ni wynebu'r ffaith nad felly y bydd pethau o hyn allan.'

[John Evans, glöwr di-waith o Gwm Rhondda yn Ne Cymru, sy'n cael ei ddyfynnu mewn llyfr o atgofion o'r cyfnod, *Time to Spare* (1935)]

Ffynhonnell B

'Cafodd diweithdra a diboblogi effaith andwyol iawn ar safle'r iaith Gymraeg. Yn 1931, roedd 811,000 o bobl yn siarad Cymraeg, ond cwmpo'n gyflym wnaeth y ffigur hwnnw. Roedd hynny'n brawf fod economi llewyrchus yn hanfodol i barhad yr iaith. Lluniodd Plaid Cymru bolisiâu beiddgar i ddiwygio'r economi, ond cawsant eu hanwybyddu gan y wasg a oedd gymaint dan ddylanwad Lloegr.'

[Geraint Lewis Jones, hanesydd academiaidd yn arbenigo ar hanes Cymru, mewn gwrslyfr hanes ar gyfer Safon Uwch, *Hanes Prydain 1914-1964* (1988)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli Cymru rhwng 1929 a 1939? [80]

CYDNABYDDIAETH

Atgynhychir Ffynhonnell B gyda chaniatâd caredig Gwasg Prifysgol Cymru.

2. Prydain mewn cyfnod o newid, tua 1929-1939

Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.

Ffynhonnell A

‘Ynglŷn â'r gorymdeithiau gan y di-waith i Lundain, maent yn annerbyniol yn y wlad hon sydd â chyfundrefn seneddol yn ei llywodraethu, gyda phleidlais gan bob oedolyn a chynrychiolydd gan bob ardal yn Nhŷ'r Cyffredin i roi cwynion gerbron ac awgrymu gwelliannau. Ni fydd gweinidogion yn annog gweithredoedd o'r fath, nac yn cytuno i dderbyn unrhyw ddirprwyaeth o blith y gorymdeithwyr, er eu bod yn barod bob amser, wrth gwrs, i gyfarfod ag unrhyw Aelod Seneddol.’

[Datganiad gan y Prif Weinidog Stanley Baldwin, a gyhoeddwyd yn *The Times* (15 Hydref 1936)]

Ffynhonnell B

‘Dyn oedd Baldwin yr oedd yn well ganddo gau ei lygaid ar broblemau yn y gobaith y byddent yn mynd i ffwrdd, tra oedd MacDonald yn colli ei allu i wneud i bobl ei ddeall. Yn 1935 roedd MacDonald yn 69 oed a heb allu traddodi araith ddealladwy, ac ar yr un pryd roedd Baldwin, a oedd yn 68 oed, yn mynd yn fyddar. Yn disgwyl ei dro, yn 66 oed, roedd Chamberlain, ac yntau ymhell o fod yn iach. Ychydig o ymateb gwleidyddol a gafwyd i broblemau'r 1930au. Doedd gan y gymdeithas ddim gobaith o gwbl.’

[Charles Loch Mowat, hanesydd academiaidd yn arbenigo ar hanes Prydain, mewn llyfr hanes cyffredinol, *Britain between the Wars* (1955)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli Prydain mewn cyfnod o newid, 1929-1939? [80]